Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

# Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru: adroddiad cynnydd – Ebrill 2023

Adroddiad Cynnydd a gyflwynwyd i'r Prif Weinidog, Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, ac Arweinydd Plaid Cymru.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 22 Mai 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 22 Mai 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-cynnydd-ebrill-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Cefndir**

**Cynnydd**

**Ymgysylltu**

**Adrodd**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-cynnydd-ebrill-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cefndir

Sefydlwyd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru gan Lywodraeth Cymru gyda dau amcan eang:

1. Ystyried a datblygu opsiynau i ddiwygio'n sylfaenol strwythurau cyfansoddiadol y Deyrnas Unedig, y mae Cymru yn parhau'n rhan annatod ohoni.
2. Ystyried a datblygu'r holl brif opsiynau blaengar i gryfhau democratiaeth Cymru a sicrhau gwelliannau i bobl Cymru.

Mae aelodaeth y Comisiwn yn cynnwys:

- Cyd-gadeirydd: Laura McAllister
- Cyd-gadeirydd: Rowan Williams
- Anwen Elias
- Miguela Gonzalez
- Michael Marmot
- Lauren McEvatt
- Albert Owen
- Philip Rycroft
- Shavanah Taj
- Kirsty Williams
- Leanne Wood

Cefnogir y Comisiwn gan Banel o Arbenigwyr, sy'n rhoi cyngor ar amrywiaeth o arbenigeddau:

- Cadeirydd: Gareth Williams, cyn-Gynghorydd Arbennig i Lywodraeth Cymru ar y Trefniadau Pontio Ewropeaidd
- Jess Blair, Cyfarwyddwr Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru
- Yr Athro Emyr Lewis, Pennaeth Adran y Gyfraith a Throseddeg ym

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-cynnydd-ebrill-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mhrifysgol Aberystwyth
- Auriol Miller, Cyfarwyddwr y Sefydliad Materion Cymreig
- Akash Paun, Pennaeth rhaglen ddatganoli Institute for Government
- Dr Hugh Rawlings, cyn-Gyfarwyddwr Materion Cyfansoddiadol yn Llywodraeth Cymru
- Yr Athro Mairi Spowage, Athro Ymarfer a Chyfarwyddwr Sefydliad Fraser of Allander
- Yr Athro Diana Stirbu, Athro Polisi a Llywodraethu ym Mhrifysgol Met Llundain

## Cynnydd

Daeth **Adroddiad Interim y Comisiwn**, a gyhoeddwyd ar 6 Rhagfyr 2022, i'r casgliad bod tri opsiwn hyfyw – pob un â'i gyfleoedd a'i heriau ei hun – ar gyfer dyfodol cyfansoddiadol Cymru:

- atgyfnerthu datganoli
- strwythurau ffederal
- annibyniaeth

Ar 3 Mawrth, cyhoeddodd y **Comisiwn Fframwaith dadansoddi'r opsiynau cyfansoddiadol** ar gyfer dadansoddi ac arfarnu'r tri opsiwn cyfansoddiadol.

Ers yr adroddiad cynnydd diwethaf, mae'r Comisiwn wedi cyfarfod i drafod y dystiolaeth ar bedwar achlysur, gan gynnwys dau weithdy.

Mewn cyfarfodydd i rannu tystiolaeth, mae'r Comisiwn wedi clywed oddi wrth:

- Y Gwir Anrh. Gordon Brown
- Yr Athro Jim Gallagher
- Darren Millar AS, Gweinidog Cabinet yr Wrthblaid ar y Cyfansoddiad a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-cynnydd-ebrill-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Gogledd Cymru, y Ceidwadwyr Cymreig
- Jeff Cuthbert, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent a Chadeirydd Plismona yng Nghymru
- Andy Dunbobbin, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru
- Alun Michael, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

Cymerwyd rhan mewn gweithdy ar oblygiadau cyfansoddiadol/deddfwriaethol a gwleidyddol y tri opsiwn cyfansoddiadol a nodwyd yn adroddiad y Comisiwn gan yr unigolion canlynol:

- Yr Athro Erin F. Delaney, Prifysgol Northwestern, Chicago
- Yr Athro Aileen McHarg, Prifysgol Durham
- Stephen Noon, Prifysgol Caeredin
- Yr Athro Rick Rawlings, Coleg y Brifysgol Llundain (UCL)
- Yr Athro Meg Russell, Uned y Cyfansoddiad, Coleg y Brifysgol Llundain (UCL)
- Paul Silk, Grŵp Diwygio'r Cyfansoddiad

Cymerwyd rhan mewn gweithdy ar oblygiadau cyllidol ac economaidd y tri opsiwn cyfansoddiadol a nodwyd yn yr Adroddiad Interim gan yr unigolion canlynol:

- David Phillips, Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid
- Guto Ifan, Dadansoddi Cyllid Cymru, Canolfan Llywodraethiant Cymru, Prifysgol Caerdydd
- Yr Athro John Doyle, Prifysgol Dinas Dulyn

Cymerodd swyddogion o Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban sydd â gwybodaeth arbenigol am berthnasedd gwaith y Comisiwn ran yn y gweithdai er mwyn darparu gwybodaeth ffeithiol.

Mae'r Comisiwn yn ystyried goblygiadau datganoli pellach mewn perthynas â: chyfiawnder a phlismona, trafnidiaeth, cyflogaeth, lles, ynni, a darlledu. Fel y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-cynnydd-ebrill-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

nodwyd yn Adroddiad Interim y Comisiwn, nid ystyried y materion hyn o'r newydd yw'r amcan yn awr ond deall y sefyllfa ddiweddaraf ac ystyried sut y mae'r pynciau hyn yn cydweddu â dadansoddiad y Comisiwn o'r opsiynau cyfansoddiadol a nodir yn yr Adroddiad Interim.

Hyd yma, mae'r Comisiwn wedi derbyn tystiolaeth gan y canlynol:

- ASLEF (cyflwyniad ysgrifenedig)
- RMT (cyflwyniad ysgrifenedig)
- Joe Allen, TUC Cymru
- Mark Barry, Athro mewn Ymarfer Cysylltedd, Prifysgol Caerdydd
- Hannah Blythyn AS, Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol (a swyddogion cynorthwyol)
- Yr Arglwydd Peter Hendy, Cadeirydd Network Rail (cyflwyniad ysgrifenedig)
- David Hughes, Cyfraith Gyhoeddus Cymru
- Jane Hutt AS, Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol (a swyddogion cynorthwyol)
- Yr Athro Jean Jenkins, Cadeirydd y Comisiwn ar Ddyfodol Datganoli a Gwaith
- Gethin Jones, PCS (Carchardai)
- Su McConnel, Is-gadeirydd, Napo Cymru
- Nisreen Mansour, TUC Cymru
- Yr Arglwydd Neuberger
- Sarah Rigby, Cymdeithas y Swyddogion Carchar
- Nicky Ryan, Ffederasiwn Heddlu Cymru a Lloegr
- Trafnidiaeth Cymru
- Lee Waters AS, Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd (a swyddogion cynorthwyol)
- Rhodri Williams CB
- Dr Victoria Winkler, Cyfarwyddwr, Sefydliad Bevan
- Liz Withers, Pennaeth Materion Cymreig, Yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr
- Swyddogion o Adran Gyfiawnder Llywodraeth Cymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-cynnydd-ebrill-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Ymgysylltu

Y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno ymateb i ymgynghoriad ar-lein y Comisiwn '**Dweud eich dweud: dyfodol cyfansoddiadol Cymru**' oedd 28 Chwefror. Daeth dros 2,500 o ymatebion i law. Cafodd cynnwys adroddiad interim y Comisiwn ei lywio gan yr ymatebion a dderbyniwyd erbyn diwedd mis Hydref 2022. Bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei lywio gan y cyflwyniadau rhwng mis Hydref a diwedd yr arolwg.

Mae'r Comisiwn wedi sefydlu platfform digidol y Safle Sgwrsio (**defnyddiadylais.cymru**) er mwyn gallu parhau â'r sgwrs genedlaethol. Bydd sianeli cyfathrebu a digwyddiadau cyhoeddus y Comisiwn yn cyfeirio defnyddwyr i'r safle, lle y bydd cynnwys newydd (e.e. fideos, blogiau, arolygon barn a straeon) yn cael eu cyhoeddi yn rheolaidd gyda'r nod o annog pobl i sgwrsio am y materion perthnasol ar-lein.

Mae'r Comisiwn wrthi yn cynnal ymchwil ansoddol a meintiol i nodi barn dinasyddion ledled Cymru. Mae'n gweithio'n agos gyda grwpiau a sefydliadau i sicrhau bod pob cymuned yng Nghymru yn cymryd rhan a bod eu lleisiau yn cael eu clywed.

Mae'r Comisiwn wedi cynnal paneli trafod yng nghynhadledd wanwyn pob un o'r pedair prif blaid wleidyddol yng Nghymru.

Mae cyfres o ddigwyddiadau cyhoeddus yn cael ei chynllunio ar gyfer yr haf i sicrhau bod pob dinesydd yng Nghymru benbaladr yn cael cyfle i ymuno â'r sgwrs genedlaethol. Bydd y rhain yn cynnwys sioeau teithiol mynediad agored ac ymddangosiadau 'mewn partneriaeth' mewn digwyddiadau allweddol a gynhelir yng Nghymru.

Ym mis Mai, mae'r Comisiwn yn cyfarfod ag aelodau o Dŷ'r Arglwyddi a'r Tŷ Cyffredin mewn digwyddiad trawsbleidiol yn San Steffan, a bydd y Cyd-

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-cynnydd-ebrill-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gadeiryddion yn ymddangos gerbron y Pwyllgor Materion Cymreig.

# Adrodd

Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi ei adroddiad terfynol, gan gynnwys argymhellion, erbyn diwedd 2023.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-cynnydd-ebrill-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.